

## **Maer 2011-2012**

### **Y Cyngorydd Paul Brown**

Ganwyd Paul yn 1953 ac mae wedi byw ym Merthyr Tudful ei holl fywyd ond am gyfnod yn y Coleg a'i swydd gyntaf yn Hertfordshire rhwng 1973 a 1977. Addysgwyd Paul yn Ysgol Iau Penydarren, Ysgol Ramadeg y sir ac Ysgol Uwchradd Cyfarthfa ble astudiodd lefel A. Cymhwysodd fel Athro a gweithiwr ieuentid a chymuned o Goleg y Drindod Caerfyrddin.

Dechreuodd weithio i Gyngor Morgannwg Ganol yn 1977 fel gweithiwr ieuentid llawn amser a bu'n gwneud y Gwaith hwn nes iddo ymddeol yn gynnar ar ôl 33 mlynedd yn gweithio gyda phobl ifanc.

Yn ystod y blynyddoedd olaf ei yrfa bu'n aelod cychwynnol gwasanaeth cwnsela sy'n cael ei adnabod fel Cwnsela Eye to Eye, gwasanaeth sy'n cael ei gydnabod fel arfer dda yn y maes. Bu hefyd yn Gadeirydd Cymdeithas Chwaraeon Ieuentid Cymru a Digwyddiadau Ieuentid Cymru. Yn ystod ei gyfnod Cymdeithas Wasanaeth Ieuentid Morgannwg Ganol oedd y pencampwr Chwaraeon Cenedlaethol mewn amrywiaeth o gampau.

Wrth weithio i Gyngor Morgannwg Ganol daeth Paul yn ddyfarnwr a hyfforddwr pêl droed gan ddyfarnu yn y Gynghrair yn 1988. Yn 1992 daeth yn un o'r cyntaf i dderbyn statws llumanwr FIFA er mwyn gallu gweithio yn Ewrop ac ar lefel Ryngwladol. Daeth ei yrfa ddyfarnu i ben yn anffodus oherwydd damwain gar wrth ddychwelyd o gêm yn Harrogate. Parhaodd fel asesydd dyfarnwyr yng Nghynghrair Dr Martens ble oedd CPD Merthyr yn arfer chwarae. He held a number of regional posts in administering referees education and training for South Wales and the South West of England and was highly thought of in the world of Welsh and English football.

Mae Paul yn amgylcheddwr brwd ac maen adnabyddus yn lleol am ei waith yn gwrthwynebu cloddio glo brig ar safle Gorllewin Rhydycar gan ddechrau yn 1995. Roedd yn gyfrifol am sefydlu grŵp Ymgyrch Merthyr Tudful yn erbyn Cloddio Glo Brig ac ef yw'r ysgrifennydd o hyd. Mae'r ymroddiad yma wedi dwyn ffrwyth gan fod y Cyngor bellach yn cefnogi amcanion yr Ymgyrch. Mae'r potensial o ddatblygu Gorllewin Rhydycar bellach gyda'r potensial o fod yn realiti o weld safle Treftadaeth Byd eang yma.

O ganlyniad i'r Gwaith hwn y dechreuodd diddordeb Paul mewn gwleidyddiaeth leol a dechreuodd yn Gynghorydd yn cynrychioli ward Cyfarthfa yn 2004. Mae Paul wedi bod yn Llywodraethwyr ar Ysgol Heolgerrig ers 22 o flynyddoedd ac yn gadeirydd ers 5 mlynedd ble mae wedi goruchwyllo adeiladu'r Ysgol Gymunedol newydd.

Mae Paul yn briod gyda Katherine ac mae ganddynt fab, Jamie - sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Cyfarthfa gan astudio Lefel Ac mewn Peirianeg, Celf a Daearyddiaeth a dwy ferch attending Rhiannon, Ysgrifenyddes Ysgol Gymunedol Heolgerrig a Stephanie a raddiodd yn y Gyfraith o'r Brifysgol a Gradd Meistr mewn Cynllunio ac sydd bellach yn gweithio i Gyngor Blaenau Gwent fel Gorfodwr Cynllunio. Mae ganddynt un wyres, Chloe sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Cyfarthfa.

Mae rhieni Paul a Katherine sydd wedi byw eu holl fywyd ym Merthyr Tudful yn teimlo yn freintiedig iawn bod eu plant yn cael bod yn Faer a Maeres y Fwrdeistref.

Mae Katherine yn Uwch Dechnegydd Fferyllfa yn Ysbyty Tywysog Siarl ble mae wedi gweithio ers 27 mlynedd. Mae'r ddau yn gobeithio bod yn llysgenhadon da o'r Fwrdeistref fel ei Phrif Ddinasyddion.

Mae Paul a Katherine wedi dewis Elusen [Macmillan Cancer Support](#) eleni. Bydd yr arian yn mynd tuag at grwpiau lleol sy'n wynebu costau'r Uned Cancer Newydd yn yr Ysbyty. Maent wedi dewis yr elusen oherwydd nifer o sylwadau gan gleifion sydd wedi elwa o'r Uned. Roeddent am gefnogi gwasanaethau lleol ar gyfer pobl leol yn enwedig y rheiny sy'n dioddef o'r afiechyd creulon hwn. Mae gallu derbyn triniaeth yn lleol heb orfod teithio pellteroedd mawr yn rhyddhad sylweddol. Maent hefyd eisiau cydnabod Gwaith diflino staff yr |Uned ac maent yn edrych ymlaen gweithio gyda'r Pwyllgor codi arian lleol dros y flwyddyn.

**Hoffai'r Cyn Maer a Maeres 2011 - 2012 gyhoeddi bod cyfanswm o £64,763.81 wedi ei godi rhwng Swyddfa'r Maer a Phwyllgor Cefnogi Cancr Macmillan. Bydd yr arian i gyd yn mynd at Uned Macmillan Cancer yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Hoffem ddiolch i'r noddwyr a phreswylwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful am eu cefnogaeth a'u haelioni.**